Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Y Strade
# Heol Sandy
# Llanelli
# Caerfyrddin
# SA15 4DL

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Y Strade

Mae Ysgol Y Strade yn ysgol gyfun ddwyieithog sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yn awdurdod lleol Caerfyrddin. Lleolir yr ysgol yn agos at yr arfordir, ar ochr orllewinol Llanelli. Mae 1,120 o ddisgyblion yn yr ysgol, sydd ychydig yn uwch nag adeg yr arolygiad diwethaf yn Hydref 2012. Mae 192 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn ar hyd arfordir de-ddwyrain Sir Gaerfyrddin, o'r Fforest a'r Hendy yn y dwyrain i Gydweli yn y gorllewin. Daw'r mwyafrif o ddisgyblion o Lanelli a'r pentrefi cyfagos, gyda 17.3% yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru. Mae 7.8% o'r disgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 16.4%.

Mae 1.7% o'r disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 8.9% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol, sydd yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%.

Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn. Saesneg yw iaith gartref tua 40% o'r disgyblion ond gall yr holl ddisgyblion siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf.

Mae Ysgol y Strade yn ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol ac mae'n gweithio'n agos gydag ysgolion eraill er mwyn gwireddu argymhellion Dyfodol Llwyddiannus i gynllunio a gweithredu cwricwlwm newydd i Gymru.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2017. Mae dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol hefyd ar yr uwch dîm arwain.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Y Strade yn gymuned glòs a balch.  Mae'r perthnasoedd agos a chynhyrchiol rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr at greu ymdeimlad teuluol a chynaliol.  Mae ymddygiad parchus bron pob disgybl a'u medrau cymdeithasol caboledig yn gryfder nodedig.  Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae darparu gofal a chymorth o'r radd flaenaf ac arlwy gyfoethog o brofiadau dysgu wrth galon gwaith yr ysgol.  O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa ar gefnogaeth gynhwysfawr, addysgu cadarn ac amryfal brofiadau gwerthfawr sydd yn enhangu eu gorwelion ac yn cyfrannu'n bwysig at eu hunaniaeth Gymreig.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cefnogi lles a chynnydd disgyblion a staff.  Mae arweinyddiaeth lwyddiannus wedi cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau pwysig o waith yr ysgol, gan gynnwys presenoldeb ac agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau disgyblion, yn enwedig disgyblion mwy abl

A2 Sicrhau bod barnau disgyblion yn cael mwy o ddylanwad ar waith yr ysgol

A3 Gwella ansawdd yr addysgu, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd a TGCh a'r ddarpariaeth ar gyfer herio disgyblion mwy abl

A4 Gwella prosesau hunanwerthuso, gan gynnwys y defnydd o ddata a chyfundrefnau olrhain cynnydd

A5 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â gwaith yr ysgol i gefnogi iechyd meddwl disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac mewn arholiadau allanol. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn effeithlon ac yn cymhwyso'u medrau'n gelfydd, yn enwedig felly eu medrau llythrennedd. Nid yw ychydig o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion mwy abl, yn gwneud digon o gynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn barchus ar ei gilydd ac ar eu hathrawon. Mae llawer yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth ac mae'r mwyafrif yn cyfleu eu hunain yn glir ac yn cefnogi eu safbwyntiau yn effeithiol. Maent yn cyfathrebu mewn tafodiaith leol ac yn defnyddio termau pynciol yn hyderus, er enghraifft wrth drafod elfennau cerddorol wrth baratoi trefniant o alaw werin leol. Mae lleiafrif yn siarad yn rhugl ac yn goeth, ac mae eu geirfa yn gyfoethog. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn cynnig ymatebion cyfyngedig ar lafar ac mae ychydig yn dawedog ac yn amharod i gyfrannu at drafodaethau.

Mae medrau darllen disgyblion yn gryfder. Mae llawer yn darllen yn hyderus er mwyn lleoli ffeithiau a chywain gwybodaeth. Maent yn dadansoddi testunau llenyddol a ffeithiol yn addas, gan egluro yn gymwys effaith technegau ysgrifennu, megis technegau perswâd mewn hysbysebion am wyliau yn eu gwersi Saesneg neu wrth ddehongli ffynonellau am y pla du yn hanes. Mae'r mwyafrif yn dehongli a dadansoddi testunau llenyddol yn sensitif. Maent yn defnyddio geirfa dechnegol briodol ac yn cynnwys dyfyniadau pwrpasol. Mae lleiafrif yn gwneud hyn yn gelfydd, gan arddangos dealltwriaeth aeddfed a chraff o destunau, megis pan maent yn cymharu cerddi serch yn eu gwersi Saesneg. Mae lleiafrif yn rhy arwynebol wrth ddehongli testunau ac effaith technegau ysgrifennu.

Wrth ysgrifennu, mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol gan ddefnyddio paragraffau ac maent yn ysgrifennu darnau estynedig ar draws ystod o bynciau. Mae'r mwyafrif â geirfa addas ac mae geirfa eang, goeth gan leiafrif o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae geirfa gyfyng gan ychydig o ddisgyblion. Mae'r mwyafrif yn cymhwyso technegau a ffurfiau ysgrifennu yn briodol ac yn ysgrifennu mewn cywair addas. Mae lleiafrif yn defnyddio iaith ac arddull yn gelfydd, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson y cymeriad Eli Brown. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau esgeulus, niferus o ran gramadeg a sillafu. Nid yw'r disgyblion hyn yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros gywiro eu gwaith cyn i'r athro edrych arno.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif priodol ac yn defnyddio termau pynciol yn addas. Maent yn defnyddio unedau ac yn llunio a dehongli graffiau yn gywir, er enghraifft wrth ddehongli graffiau pellter-amser yn mathemateg. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn cymhwyso eu medrau rhif er mwyn datrys problemau mathemategol aml gam yn ddigon aml.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio rhaglenni technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) er mwyn rhannu gwybodaeth a chydweithio ar brosiectau. Maent yn gymwys yn eu defnydd o raglenni prosesu geiriau, creu cyflwyniadau a thaenlenni sylfaenol. Serch hyn, cyfyngedig yw eu cynnydd o ran datblygu uwch fedrau TGCh ar draws y pynciau.

Mae medrau creadigol y disgyblion yn nodwedd arbennig. Maent yn arddangos eu creadigrwydd ar draws ystod eang o weithgareddau o fewn eu gwersi a thrwy gyfleoedd allgyrsiol cyfoethog. Mewn gwersi drama, maent yn ysgrifennu a pherfformio eu sgriptiau gwreiddiol eu hunain, gan dynnu ar eu profiadau o fod mewn amryfal sioeau cerdd. Yn eu gwersi celf, maent yn creu crochenwaith yn arddull crochenydd byd enwog, gan gynnwys gweadau amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau corfforol yn effeithiol yn ystod gwersi addysg gorfforol ac mewn clybiau chwaraeon poblogaidd, er enghraifft trwy ymarfer gwibio er mwyn cyrraedd uchafswm eu cyflymdra.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gallu rhesymu yn synhwyrol wrth gyflwyno'u safbwyntiau ac yn gallu gwerthuso yn addas, er enghraifft wrth arfarnu perfformiad disgyblion mewn trafodaeth grŵp yn eu gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn or-ddibynnol ar gefnogaeth gan athrawon ac nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn ddigonol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn well na neu'n debyg i berfformiad ysgolion tebyg yn y mwyafrif o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn debyg i neu'n well na mewn ysgolion tebyg ers pedair blynedd. Yn y dangosydd lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn debyg i neu'n well na mewn ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosyddion lefel 1 a 2 yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg dros yr un cyfnod. Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 5 gradd TGAU A*-A neu gyfwerth wedi bod yn anwastad dros amser ac mae ychydig yn is nag mewn ysgolion tebyg yn 2018.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad bechgyn yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad merched yn fwy anghyson dros amser. Yn 2018, mae eu perfformiad yn gyffredinol debyg i berfformiad merched mewn ysgolion tebyg, ac eithrio yn y Gymraeg, ble maent yn wannach. Yn y ddwy flynedd flaenorol, mae eu perfformiad yn is na pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg yn tua hanner y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Mae perfformiad y nifer fach o ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn anwastad dros amser. Yn 2018, mae eu perfformiad yn well na neu'n debyg i berfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg yn y mwyafrif o'r dangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Nid oes disgybl wedi gadael yr ysgol yn ddigymhwyster ers 2016.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach yn is nag mewn ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 3 gradd A*-A neu gyfwerth wedi bod yn amrywiol dros amser ond wedi dirywio yn 2018.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae lles disgyblion yn agwedd gref o fywyd Ysgol y Strade. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi awyrgylch deuluol yr ysgol a'r gefnogaeth a roddir gan y staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ffyddiog y bydd yr ysgol

yn eu cefnogi os oes angen cymorth arnynt. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd meddwl a lles emosiynol ac ymgymerant yn frwd â sesiynau meddylgarwch. Mae disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar lein yn dda ac mae gwaith yr arweinwyr digidol yn cyfrannu'n werthfawr at hyn.

Mae bron bob un disgybl yn estyn croeso cynnes i ymwelwyr, yn rhyngweithio'n gyfeillgar â'i gilydd ac yn dangos parch amlwg tuag at staff. Mae bron bob un yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi, gan ymdawelu i weithio yn gyflym. Dengys llawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at eu dysgu gan gyfleu awydd amlwg i lwyddo, ac mae eu presenoldeb yn gyson dda. Mae llawer yn cydweithio'n effeithiol a disgybledig mewn parau a grwpiau, gan ymateb yn adeiladol i gyfraniadau ei gilydd. Mae llawer yn arddangos dycnwch wrth weithio'n annibynnol a gallant ganolbwyntio a dyfalbarhau yn llwyddiannus. Mae lleiafrif yn dangos chwilfrydedd amlwg gan holi cwestiynau'n gyson, er enghraifft cwestiynau am drosedd a chosb yn hanes. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn or-ddibynnol ar eu hathrawon ac nid ydynt yn cymhwyso eu medrau yn ddigon effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd amryfal i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae llawer yn buddio o fynychu clybiau amrywiol a chymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, tripiau côr, eisteddfodau lleol a chenedlaethol a sioeau cerdd. Maent hefyd yn cyfrannu'n frwd tuag at weithgareddau elusennol megis cystadleuaeth siwmper Nadolig a diwrnod Plant mewn Angen. Yn ddiweddar, maent wedi bod yn casglu arian at elusen i gefnogi pobl â chlefyd Parkinson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol. Mae llawer yn buddio o gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol sy'n cynnwys chwaraeon tîm, ioga a sesiynau ffitrwydd.

Mae disgyblion penodol yn ymgymryd yn frwdfrydig â rolau a chyfrifoldebau arwain. Mae bron pob disgybl yn y chweched dosbarth ynghlwm â gwaith y pwyllgorau, er enghraifft y pwyllgor eco a'r pwyllgor Cymraeg. Mae'r 'arweinwyr digidol' yn gweithio'n frwdfrydig i hyfforddi ac uwchsgilio disgyblion a staff. Caiff y cyngor ysgol effaith briodol ar ychydig o agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft drwy newid rhaglen ddysgu a gwisg addysg gorfforol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw barnau disgyblion yn dylanwadu'n ddigon cryf ar waith yr ysgol, gan gynnwys agweddau ar ddysgu ac addysgu. Nid yw disgyblion bob amser yn ymwybodol o effaith eu barn ar weithgarwch yr ysgol nac o waith y cyngor ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae perthnasoedd gwaith cynnes a chadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion yn nodwedd o'r rhan fwyaf o wersi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gefnogol iawn o'r disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt o ran ymddygiad, cymhelliant a diwyg eu gwaith. Maent yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn fodelau iaith da. Mae llawer o athrawon yn creu awyrgylch groesawgar yn eu hystafelloedd dosbarth ac yn darparu arddangosfeydd deniadol sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi'n bwrpasol, gan ddarparu ystod o weithgareddau defnyddiol ac adnoddau amrywiol a dengar. Maent yn cynllunio

tasgau sydd yn adeiladu'n fuddiol ar ei gilydd ac yn arwain at gynnydd cadarn. Mae lleiafrif o athrawon yn cynllunio'n ofalus ar sail gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion unigol a gofynion eu pwnc. Yng ngwersi'r athrawon hyn, mae disgyblion yn cael eu hymestyn a'u herio ac yn gwneud cynnydd cryf, ni waeth beth fo'u gallu. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn cynllunio'n ddigon manwl er mwyn cynnig her addas i ddisgyblion ar draws yr ystod gallu, yn enwedig y rhai sydd yn fwy abl. Nid yw ychydig iawn o athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd yn adeiladu ar ei gilydd yn addas nac yn dyfnhau dealltwriaeth. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae llawer o athrawon yn cynnig cyfarwyddiadau clir ac mae'r mwyafrif yn egluro cysyniadau mewn modd hygyrch. Mae lleiafrif o athrawon yn modelu ac yn enghreifftio yn werthfawr, gan gynnig patrwm o arfer dda i ddisgyblion wrth wneud hynny.

Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau gan lawer o athrawon. Serch hyn, nid yw lleiafrif o athrawon yn arfogi'r disgyblion yn ddigonol er mwyn iddynt allu gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus. Maent yn rhoi gormod o gymorth i ddisgyblion neu'n cyflwyno am gyfnodau rhy hir.

Yn yr ychydig achosion ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn cyfleu brwdfrydedd heintus at eu pwnc ac yn arddangos mwynhad gwirioneddol wrth addysgu. Mae ganddynt adnabyddiaeth gynhwysfawr o bob disgybl ac maent yn monitro eu cynnydd yn graff. Mae hyn yn cymell disgyblion yn llwyddiannus ac yn cynnal eu diddordeb. Yn yr achosion hyn, mae cydbwysedd addas o fewnbwn gan yr athro a gweithgareddau i'r disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn briodol er mwyn cadarnhau dealltwriaeth sylfaenol. Mae ychydig yn eu holi'n finiog a dwfn, gan herio disgyblion i ymestyn eu hymatebion a datblygu eu medrau meddwl. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw holi athrawon yn ddigon treiddgar. Yn gyffredinol, wrth holi a chylchu'r dosbarth, nid yw athrawon yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion a gwirio eu cynnydd yn drylwyr.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth defnyddiol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith a thasgau dilynol defnyddiol sydd yn helpu disgyblion i symud ymlaen. Mae lleiafrif yn gwneud defnydd effeithiol o feini prawf llwyddiant ac yn anodi gwaith gyda sylwadau penodol gwerthfawr. Mae'r mwyafrif o athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i'w hadborth. Fodd bynnag, mae ansawdd yr asesu yn rhy amrywiol. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn cynnig sylwadau gor-ganmoliaethus neu mae prinder adborth defnyddiol. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn gwirio ansawdd ymatebion disgyblion i'w hadborth.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol. Mae'r amrywiaeth gynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yn llwyddo i ddiwallu diddordebau a galluoedd y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cydweithio'n werthfawr ag ysgolion a choleg lleol i ehangu dewisiadau'r disgyblion yn y chweched dosbarth.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r rhaglen gynhwysfawr o brofiadau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys y clwb coginio poblogaidd, yr olympiad cemeg, wythnos 'cyfoethogi'r cwricwlwm' a chyfleoedd addysgol sy'n deillio o'r bartneriaeth

gyda chymdeithas adeiladu genedlaethol sydd â chysylltiadau lleol Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gymhelliant disgyblion i lwyddo ac ymgysylltu â bywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn 'ysgol arloesi dysgu proffesiynol' ac yn cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, mae cydweithio agos rhwng adrannau'r dyniaethau ac mae ymchwiliad proffesiynol i bedwar pwrpas y cwricwlwm newydd gydag ysgolion cynradd partner.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i hysgolion partner cynradd i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n briodol ar brofiadau disgyblion o gyfnod allweddol 2.

Mae cyfleoedd allgyrsiol addas i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog, megis yr heriau peirianneg a mathemateg.

Ceir ystod pwrpasol o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mewn pynciau perthnasol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Serch hyn, nid yw'r ysgol yn darparu digon o gyfleoedd o fewn mathemateg nac ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i ymresymu a datrys problemau aml gam.

Mae'r ysgol wedi mapio cyfleoedd i gymhwyso gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn drwyadl ac mae cynlluniau pwrpasol gan lawer o adrannau. Yn gyffredinol, mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm, ond mae diffyg cyfleoedd i ddatblygu uwch fedrau TGCh yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o ddata profion cenedlaethol i drefnu ymyrraeth i ddisgyblion â medrau gwan.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo Cymreictod a meithrin medrau disgyblion yn y Gymraeg yn werthfawr. Er enghraifft, cynhelir sioeau cerdd gwreiddiol sydd yn addysgu disgyblion ynghylch hanes a chymeriadau lleol a chenedlaethol, megis y sioe 'Grav' am Ray Gravell ac 'Y Map' am hanes a diwylliant Cymru. Mae'r 'eisteddfod ddwl' a theithiau i leoedd o ddiddordeb hanesyddol megis Tryweryn ac Aberfan yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u hanes a'u diwylliant. Serch hyn, nid oes cyfleoedd i ddisgyblion astudio ychydig o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y chweched dosbarth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Gyfun y Strade yn gymuned gynhwysol, ofalgar a chlos. Yn greiddiol i'w gwaith mae ei darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad a'r pwyslais ar bob plentyn yn cyfrif. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn eithriadol o dda gan ddangos parch a gofal at eu cyfoedion ac eraill.

Cryfder amlwg yw'r modd y mae'r ysgol yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol ac egwyddorol, sydd yn deall eu rôl o fewn eu cymuned leol a chenedlaethol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldeb a chyfrannu at gymdeithas trwy amrywiaeth o bwyllgorau elusennol, gweithgorau megis y rhai eco a Chymreictod a gweithgareddau yn cynnwys glanhau traeth Penbre a chymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Ceir darpariaeth lwyddiannus i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Gwneir hyn trwy wasanaethau'r ysgol, siaradwyr gwadd a

rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr. Caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth, er enghraifft trwy ysgrifennu llythyr am fod yn bêl-droediwr Mwslemaidd yn addysg grefyddol . Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol ag unigolion ac asiantaethau allanol sydd yn cyfrannu'n fuddiol at y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn darparu sesiynau gwerthfawr yn rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion megis peryglon camddefnydd sylweddau a defnydd amhriodol o rwydweithiau cymdeithasol.

Mae'r ddarpariaeth gyfoethog a blaengar ar gyfer hybu iechyd meddwl disgyblion yn nodwedd arbennig. Mae'n cynnwys sesiynau 'Meddwlgarwch' a phrosiect 'Saib a Symud' sy'n helpu disgyblion Blwyddyn 7 i baratoi'n feddyliol ar gyfer heriau ysgol uwchradd. Mae disgyblion yn chwarae rhan allweddol o ran datblygu a darparu'r ddarpariaeth werthfawr hon. Er enghraifft, mae myfyrwyr Blwyddyn 12 sydd wedi'u hyfforddi fel 'mentoriaid emosiwn' yn cynnig cynhaliaeth i fyfyrwyr iau, ac fel rhan o brosiect creadigol, mae disgyblion Blwyddyn 9 wedi creu cyfres o sbardunau ysgogol er mwyn cefnogi'r sesiynau meddwlgarwch.

Mae'r llu o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr yn gryfder nodedig. Yn eu plith mae clybiau chwaraeon amrywiol, cyfle i gymryd rhan yng Ngwobr Efydd Dug Caeredin, y clybiau codio, drama, celf, corau a sioeau cerdd. Mae nifer o deithiau ysgol gan gynnwys teithiau i Baris, Gwlad yr Ia, yr Unol Daleithiau a'r daith sgïo flynyddol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach yn addas ac mae ffreutur yr ysgol yn darparu opsiynau priodol.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr a chyson i olrhain presenoldeb disgyblion. Trwy gydweithio llwyddiannus gyda rhieni, y swyddog presenoldeb a'r swyddog lles, mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel. Mae rhaglen gynhwysfawr o ymyraethau effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau sylfaenol gwan neu anghenion emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol. Trwy gefnogaeth amryw o asiantaethau allanol, megis y nyrs ysgol, y swyddog ieuenctid a gwasanaeth cwnsela mae'r ysgol yn cynnal a chefnogi'r disgyblion mwyaf bregus yn hynod lwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol o ganolfan gefnogaeth yr 'Hafan' er mwyn datblygu medrau bywyd a hunanhyder disgyblion sydd angen cynhaliaeth bellach. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod disgyblion hyn yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac yn ennill cymwysterau.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi cryfhau'r systemau olrhain cynnydd ysgol-gyfan a'r rhai adrannol. Fodd bynnag, dros amser, nid yw'r system olrhain cynnydd academaidd wedi bod yn ddigon trylwyr a miniog er mwyn sicrhau adnabyddiaeth gywir o berfformiad grwpiau o ddisgyblion nac i adnabod disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni yn ddigon cynnar.

Mae darpariaeth werthfawr ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i ddarparu ymyraethau o ansawdd uchel ar draws yr ysgol. Cydweithia'r ysgol yn agos gydag amryfal asiantaethau allanol er mwyn cynnig cefnogaeth o ansawdd uchel i'r dysgwyr hyn. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ofynion carfanau gwahanol o ddisgyblion ac yn teilwra ei darpariaeth yn bwrpasol i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae gan yr ysgol berthynas agos a chynhyrchiol gyda rhieni. Trefnir digwyddiadau gwerthfawr i hwyluso trosglwyddo disgyblion i'r uwchradd, megis noson rieni 'Setlo Saith'. Mae rhieni'n derbyn adroddiadau manwl a phersonol sydd yn rhoi darlun clir o ymroddiad disgyblion ac yn adnabod eu cryfderau a'u gwendidau yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad priodol er mwyn i ddisgyblion wneud dewisiadau addas ar ddiwedd pob cyfnod allweddol. Mae hyn yn cynnwys nosweithiau dewisiadau pynciau effeithiol a llyfrynnau gwybodaeth cynhwysfawr i ddisgyblion sydd yn symud o un cyfnod allweddol i'r llall. Cydweithia'r ysgol yn effeithiol ag asiantaethau, colegau addysg bellach a busnesau lleol er mwyn darparu cyfleoedd blasu a gwybodaeth addas am gyrsiau a phrentisiaethau.

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu, er i'r tîm ddod â rhai materion diogelu a iechyd a diogelwch at sylw'r ysgol yn ystod wythnos yr arolygiad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar 'anelu at ragoriaeth' drwy ddarparu profiadau cyfoethog mewn awyrgylch Cymraeg a Chymreig. Mae'r uwch dîm arwain a rheolwyr canol yn rhannu'r weledigaeth yn llawn ac fe'i chyflëir yn effeithiol a rheolaidd ar draws yr ysgol. Ceir ymdeimlad cryf o gydweithio agos ymysg staff a balchder amlwg o fod yn rhan o gymuned yr ysgol.

Mae arweinyddiaeth effeithiol wedi sicrhau bod agweddau disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol iawn. Yn ogystal, mae presenoldeb ac ymddygiad o fewn yr ysgol ofalgar hon yn dda iawn. Mae ychydig o feysydd pwysig o waith yr ysgol lle nad yw arweinyddiaeth wedi arwain at welliannau cyson, er enghraifft deilliannau yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4, a pherfformiad disgyblion mwy abl.

Caiff y pennaeth ei gynorthwyo'n gryf gan ei uwch dîm arwain, sydd yn gweithio'n agos â'i gilydd. Yn yr un modd, ceir tîm o reolwyr canol sydd yn cydweithio'n dda. Mae llawer ohonynt yn gosod disgwyliadau uchel a chyfeiriad strategol clir i waith aelodau'u hadrannau.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r uwch dîm arwain yn gytbwys ac yn glir i bawb. Mae system rheolwyr cyswllt gynhwysfawr, gyda llinellau atebolrwydd diamwys. Cynhelir cyfres o gyfarfodydd ffurfiol drwy'r flwyddyn sydd yn arwain at bwyntiau gweithredu defnyddiol a dilyniant addas.

Mae llawer o reolwyr canol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac maent yn ymwybodol o'r hyn sydd eisiau ei wneud i wella ansawdd gwaith eu hadrannau. Maent yn defnyddio data perfformiad yn addas i adnabod y rhesymau dros dangyflawniad ac i osod targedau gwelliant ar gyfer unigolion ac adrannau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn cymharu perfformiad yr ysgol yn ddigon trylwyr yn erbyn ysgolion tebyg eraill.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn addas. Ceir amcanion ar gyfer staff sydd yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau gwella'r ysgol a threfniadau i gefnogi eu datblygiad proffesiynol yn briodol. Mae arweinwyr yn herio'r achosion o danberfformio yn gymwys.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn frwdfrydig ac yn cyfrannu'n briodol at osod cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Maent yn adnabod y cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr yn cymharu perfformiad yr ysgol yn erbyn ysgolion tebyg eraill yn ddigon trylwyr. Drwy grŵp strategol y llywodraethwyr, caiff pob aelod o'r uwch dîm arwain ei ddal i gyfrif yn bwrpasol, ond nid yw'r strwythur hwn wedi'i ymestyn i gynnwys arweinwyr canol.

Mae'r ysgol wedi datblygu rhaglen o weithgareddau defnyddiol sydd yn sail gadarn ar gyfer ei phrosesau hunan werthuso a chynllunio gwelliant. Caiff y rhaglen hon ei gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol ac mae'n cynnwys gweithgarwch buddiol fel dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae llawer o arweinwyr yn cyfrannu at y prosesau hyn ac, ar y cyfan, maent yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol er mwyn adnabod agweddau cadarnhaol ar waith yr ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Trwy sianeli cyfathrebu gwerthfawr fel y fforwm staff, mae gan staff gyfle i gyfrannu a dylanwadu'n addas ar gyfeiriad strategol yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r penaethiaid safonau, sef arweinwyr bugeiliol yr ysgol, yn cyfrannu'n ddigonol at y prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyswllt pwrpasol rhwng canfyddiadau ei phrosesau hunanwerthuso a'r prif flaenoriaethau ar gyfer sicrhau gwelliant. Mae'r blaenoriaethau hyn yn rhai addas ac, ar y cyfan, mae'r cynlluniau gwella adrannol yn adlewyrchu'r agweddau ysgol gyfan y mae angen eu gwella, yn ogystal â rhai adrannol. Maent yn canolbwyntio'n addas ar godi safonau cyrhaeddiad disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae gweithgarwch hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol dros y cyfnod diweddar. Mae'r rhain yn cynnwys perfformiad yn y mwyafrif o ddangosyddion perfformiad yng nghyfnodau allweddol 4 a'r chweched dosbarth a pherfformiad bechgyn. Serch hyn, ar ychydig adegau, nid yw'r wybodaeth sydd yn bwydo'r prosesau hunanwerthuso, gan gynnwys dehongliadau o ddata a chanfyddiadau o arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau, yn ddigon dibynadwy. O ganlyniad, nid yw cynllunio ar gyfer gwella bob amser yn ddigon penodol nac effeithiol. Er enghraifft, mae arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau yn canolbwyntio'n ormodol ar y ddarpariaeth a'r addysgu heb ystyried y cynnydd a wna disgyblion. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr wybodaeth ddigon manwl-gywir bob tro er mwyn gwerthuso effaith yr addysgu ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion.

Mae diwylliant iach o ddysgu proffesiynol ar y cyd yn datblygu yn yr ysgol. Mae athrawon yn elwa ar ystod o weithgareddau gwerthfawr, megis cyfranogi mewn sesiynau rhannu arfer dda. Cynigir rhaglen eang o gyrsiau hyfforddi mewnol sydd yn ymateb yn ystyrlon i flaenoriaethau gwella ysgol ac adrannol. Er enghraifft, mae'r sylw penodol a roddir i hyfforddi staff ar agweddau ar iechyd meddwl yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae bod yn ysgol arloesol wedi cynnig cyfleoedd buddiol i ychydig o adrannau weithio'n gynhyrchiol gydag ysgolion cynradd y clwstwr er mwyn dechrau datblygu gwell cyd-ddealltwriaeth o ddisgwyliadau'r cwricwlwm newydd.

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol ac mae bron pob athro'n dysgu o fewn ei arbenigedd. Mae'r ysgol yn defnyddio staff gweinyddol ac ategol yn effeithiol i

gefnogi athrawon a disgyblion.  Mae'r pennaeth, rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn rheoli'r cyllid ac adnoddau yn ofalus.  Maent yn gweithredu'n gadarn i sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu ac adeiladau pwrpasol.  Gwneir defnydd priodol o grantiau i gynorthwyo'r disgyblion mwyaf bregus.  Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Grant Datblygu Disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chanlyniadau disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2019